Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Bathodyn Glas
## Ffurflen Cais

**Cwblhewch adrannau perthnasol y ffurflen gais yn unig fel y nodir yn y tabl drosodd a darparwch y dogfennau priodol i gadarnhau eich cyfeiriad, pwy ydych chi a thystiolaeth o'ch cymhwysedd.**

**Gall y nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig fod yn ddefnyddiol i chi wrth gwblhau'r ffurflen hon.**

Gall yr awdurdod lleol wrthod rhoi bathodyn i chi os na fyddwch chi'n darparu digon o dystiolaeth eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen ar ran ymgeisydd dan 16 oed neu un sy'n methu cwblhau'r ffurflen ei hun, nodwch ei fanylion yn yr adrannau priodol a llofnodwch y ffurflen ar ei ran. Hefyd, nodwch eich perthynas â'r ymgeisydd ac, os yw'r ymgeisydd â nam meddyliol sylweddol a diffyg gallu meddyliol, cadarnhewch mai chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y bathodyn yn cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon. Er enghraifft, efallai bod gennych gyfrifoldeb rhiant, hawliau Pwêr Atwrnai neu warcheidiaeth.

Gellir postio ffurflenni sydd wedi'u cwblhau at yr Awdurdod Lleol neu fynd â nhw i unrhyw un o ganolfannau HWB yr Awdurdod - gweler y nodiadau cyfarwyddyd ategol i gael manylion am leoliad y canolfannau. Os ydych am gyflwyno eich cais/dogfennau yn un o'n canolfannau HWB, ffoniwch **01267 234567** i wneud apwyntiad neu gallwch drefnu un ar-lein drwy fynd i **sirgar.llyw.cymru**, a dewis *'Eich Cyngor',* yna *'Mwyaf Poblogaidd'*, yna *'Archebu'*.

Os nad ydych yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn awtomatig, gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio Pecyn Cymorth Gwirio'r Awdurdod Lleol ar gyfer Bathodyn Glas, cysylltu â Gweithiwr Iechyd Proffesiynol neu eich cyfeirio chi at wasanaeth ymgynghori annibynnol at ddibenion asesu i gael gwybodaeth bellach er mwyn penderfynu a ydych yn gymwys i gael Bathodyn Glas.

Mae'r bathodyn fel arfer yn ddilys am 3 blynedd. Bydd angen i chi ailymgeisio am Fathodyn Glas ar ddiwedd y 3 blynedd. Cyfrifoldeb deiliaid y bathodyn yw ailymgeisio mewn da bryd i sicrhau bod ganddynt fathodyn dilys, gan all gymryd hyd at 12 wythnos i brosesu cais. Dylech ystyried hyn i wneud yn siwr nad ydych heb Fathodyn Glas.

Bydd angen llenwi ffurflen ar wahân pan fydd cais yn cael ei wneud am Fathodyn Glas Sefydliad.

**THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN ENGLISH**

**Cwblhewch y ffurflen gais defnyddiwch DDIM OND UN o'r categorïau isod os gwelwch yn dda.**

**CATEGORI A – Cwblhewch adrannau 1, 2 a 9 - OS YDYCH YN CREDU EICH BOD YN GYMWYS I GAEL BATHODYN OHERWYDD EICH BOD YN BODLONI'R MEINI PRAWF CANLYNOL:**

| MEINI PRAWF | TYSTIOLAETH SYDD EI HANGEN: |
|---|---|
| 1) Nam difrifol ar y golwg | **Tystysgrif dallineb neu olwg diffygiol (BP1) (3R) neu dystysgrif nam ar y golwg (CVI)** |
| 2) Pobl sy'n derbyn Taliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP) sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r disgrifyddion canlynol:-<br>- Disgrifydd F "Cynllunio a Dilyn Teithiau" neu,<br>- Disgrifydd C,D,E neu F "Symud o Gwmpas".<br>**Darllenwch dudalen 8 o Nodiadau Cyfarwyddyd y Bathodyn Glas i gael rhagor o wybodaeth.** | **Pwyntiau PIP sy'n ofynnol i fod yn gymwys i gael bathodyn glas:<br>Cynllunio a Dilyn Teithiau = 12<br>Symud o Gwmpas = 8 neu fwy, cadarnhawyd ar y datganiad o hawl sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf Os nad yw'r llythyr hwn yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf, rhaid ichi gynnwys eich llythyr blynyddol cyfredol sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf.** |
| 3) Pobl sy'n derbyn Cyfradd Uwch yr Elfen Symudedd o'r Lwfans Byw i'r Anabl | **Llythyr hawl sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf.** |
| 4) Pobl sy'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | **Llythyr hawl gwreiddiol o ran atodiad symudedd pensiwn rhyfel (WPMS).** |
| 5) Pobl sy'n derbyn budd-dal dan Gynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Adfyddinoedd | **Llythyr swyddogol yn cadarnhau lefel eich dyfarniad.** |

**CATEGORI B – Cwblhewch adrannau 1, 3 a 9**

Os nad ydych yn bodloni meini prawf A uchod ond bod gennych anawsterau cerdded.

**TYSTIOLAETH: Presgripsiwn a llythyr ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n disgrifio pa mor ddifrifol yw eich anawsterau symud.**

**CATEGORI D – Cwblhewch adrannau 1, 5 a 9**

Os ydych yn gwneud cais ar gyfer plentyn dan dair oed..

**TYSTIOLAETH: Darparu llythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig â thriniaeth eich plentyn ac enw a chyfeiriad eich meddyg teulu.**

**CATEGORI F – Cwblhewch adrannau 1, 7 a 9**

Os nad ydych yn bodloni meini prawf **A** uchod ond bod nam gwybyddol arnoch ac ni allwch gynllunio na dilyn taith i'r graddau bod angen goruchwyliaeth barhaus arnoch chi/arnyn nhw.

**TYSTIOLAETH: Lllythyr diagnosis a llythyr ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a welwyd yn y 12 mis diwethaf neu os ydych yn cael cyfradd uwch elfen ofal y lwfans byw i'r anabl. Efallai y bydd yn rhaid ichi gwblhau ffurflenni ychwanegol.**

**CATEGORI C: Cwblhewch adrannau 1, 4 a 9**

Os nad ydych yn bodloni meini prawf A uchod ond bod gennych nam ar y ddwy fraich.

**CATEGORI E: Cwblhewch adrannau 1, 6 a 9**

Os oes gennych salwch angheuol a namau symudedd.

**TYSTIOLAETH: Tystiolaeth ategol DS1500/SR1 neu dystiolaeth ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu feddyg teulu gydag enw a chyfeiriad.**

**CATEGORI G: Cwblhewch adrannau 1, 8 a 9**

Os nad ydych yn bodloni meini prawf **A** uchod ond eich bod yn methu â cherdded neu'n cael anhawster mawr wrth gerdded **a bod** gennych **anabledd sylweddol ond dros dro** sy'n debygol o bara am y **12 mis nesaf**

**TYSTIOLAETH: Llythyr ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.**

**COFIWCH, fydd rhaid cwblhewch DDIM OND UN o'r categorïau yn y ffurflen gais.**

## FFURFLEN GAIS Y BATHODYN GLAS

Defnydd y Swyddfa yn unig:

**Dyddiad Cyflwyno:** ____________________

**Prosesu gan:** ____________________

**Rhif CF:** ____________________

**Rhif Bathodyn:** ____________________

**Ticiwch un o'r isod**

☐ Cais newydd ☐ Ailgyflwyno cais (os ydych wedi cael bathodyn o'r blaen)

☐ Bathodyn wedi'i golli/wedi'i ddwyn/wedi'i ddifrodi

## POB CATEGORI – ADRAN 1 - GWYBODAETH AM YR YMGEISYDD

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen ar ran ymgeisydd dan 16 oed neu un sy'n methu cwblhau'r ffurflen ei hun, nodwch ei fanylion yn yr adrannau priodol a llofnodwch y ffurflen ar ei ran.

Gellir cael rhagor o ganllawiau ar gwblhau'r adran hon yn Adran 1 y nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig.

### RHAN A - MANYLION PERSENNOL

Teitl: (Dewsiwch) Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐

Arall: ☐ Nodwch y Teitl [ ]

Enw(au) Cyntaf (yn llawn): [ ]

Cyfenw: [ ]

Rhywedd: (Dewiswch) Dyn (neu fachgen): ☐ Menyw (neu ferch): ☐

Rwy'n uniaethu mewn modd gwahanol. Nodwch y rhywedd yr uniaethir ag ef: [ ]

Dyddiad Geni: (DD/MM/BBBB) ____ / ____ / ____

Cyfenw Adeg Geni: [ ]

Man Geni: Tref: [ ]

Gwlad: [ ]

Rhif Yswiriant Gwladol/ Rhif Cofrestru Plentyn

(gweler Adran 1 y nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig) [ ]

Cyfeiriad cyfredol:

Côd Post:

Rhif Ffôn Cartref:

Rhif Ffôn Symudol:

E-bost:

Cyfeiriad blaenorol, os yw wedi newid yn y tair blynedd diwethaf:

Côd Post:

Manylion Cyswllt (Dylid nodi enw'r prif bwynt cyswllt):

Rhif Cyswllt: Cyfeiriad e-bost:

At ddibenion gorfodi, nodwch rifau cofrestru'r cerbyd ar gyfer y prif geir y defnyddir y bathodyn glas ar eu cyfer.

Oes gennych chi Fathodyn Glas ar hyn o bryd, neu a ydych chi wedi cael Bathodyn Glas o'r blaen? Oes/Ydw ☐ Nac oes/Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb **OES/YDW**, atebwch y cwestiynau canlynol os gwelwch yn dda:

Pa awdurdod lleol ddarparodd y bathodyn diwethaf i chi?

Ar ba ddyddiad mae'r bathodyn diwethaf yn dod i ben?

**RHAN B – PRAWF O'CH CYFEIRIAD**

Mae'n rhaid i ni gadarnhau eich bod yn byw yn yr awdurdod lleol hwn cyn prosesu'ch cais. Dylech ddewis o'r opsiynau canlynol y rhai rydych yn cydsynio i ni eu gwirio (cewch ddewis mwy nag un):

- ☐ Rwy'n cydsynio i'r awdurdod lleol gadarnhau fy manylion personol ar gronfa ddata Treth Gyngor yr awdurdod lleol fel nad oes rhaid i mi gyflwyno prawf o'm cyfeiriad.
- ☐ Nid wyf yn talu'r Dreth Gyngor, rwyf dros 16 oed ac rwy'n cydsynio i'r awdurdod lleol gadarnhau fy nghyfeiriad ar y gofrestr etholwyr fel nad oes rhaid i mi gyflwyno prawf o'm cyfeiriad.
- ☐ Rwy'n cydsynio i'r awdurdod lleol gadarnhau fy manylion personol ar gronfa ddata Adran Cymunedau yr awdurdod lleol (y gwasanaethau cymdeithasol gynt) fel nad oes rhaid i mi gyflwyno prawf o'm cyfeiriad.
- ☐ Rwy'n ymgeisio ar ran ymgeisydd nad yw'n talu'r Dreth Gyngor ac sydd o dan 16 oed. Rwy'n cydsynio i'r awdurdod lleol edrych ar gofnodion yr ysgol i gadarnhau cyfeiriad yr ymgeisydd. **Nodwch enw ysgol neu sefydliad addysg yr ymgeisydd.**

**RHAN C – PRAWF O BWY YDYCH CHI**

Mae'n rhaid i ni gael prawf o bwy ydych chi er mwyn lleihau'r risg o geisiadau twyllodrus am Fathodyn Glas. **Os ydych wedi cael <u>Bathodyn Glas yn flaenorol</u> gan Gyngor Sir Caerfyrddin nid oes angen inni ailgadarnhau pwy ydych. Os ydych yn gwneud cais i Gyngor Sir Caerfyrddin am y tro cyntaf mae angen inni gadarnhau pwy ydych. Llenwch un o'r blychau canlynol.**

- ☐ Os oes gennych Gerdyn Teithio Rhatach ar gyfer Bysiau o Sir Gaerfyrddin, nodwch y rhif sydd ar y cerdyn bws yn y blwch isod. Nid oes angen i chi amgáu llungopi o'r cerdyn bws.

Os byddwch yn darparu'r wybodaeth uchod, nid oes angen i chi ddarparu unrhyw ddogfennau eraill. Os nad oes gennych gerdyn bws, cyflwynwch <u>UN</u> o'r canlynol fel copi wedi'i ardystio:

- ☐ Tystysgrif geni/Tystysgrif mabwysiadu
- ☐ Tystysgrif Partneriaeth Sifil/Diddymu
- ☐ Tystysgrif Priodas/Ysgariad
- ☐ Pasbort dilys, sydd heb ddod i ben (tudalen manylion personol)
- ☐ Trwydded yrru ddilys (cerdyn llun neu gopi papur)

**Darllenwch 'Prawf o bwy ydych chi' ar dudalen 5 o'r nodiadau cyfarwyddyd i gael cyfarwyddiadau ynghylch ardystio'r dogfennau. Byddai dogfennau adnabod â llun yn well. Sylwer, os byddwch yn anfon dogfennau gwreiddiol yn y post gyda'ch cais, ni fydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am unrhyw ddogfennau gwreiddiol a gollir.**

## RHAN D - LLUN

A fyddech cystal ag amgáu ffotograff lliw diweddar (tebyg i lun pasbort) o'r ymgeisydd. Mae angen i'r ffotograff lliw ddangos wyneb yr ymgeisydd yn llawn er mwyn profi pwy ydyw yn hawdd. Ni ddylai neb arall fod yn y ffotograff. Bydd y ffotograff yn cael ei osod ar gefn y bathodyn ac ni fydd i'w weld pan fydd y bathodyn yn cael ei arddangos yn y cerbyd. Edrychwch ar y nodiadau cyfarwyddyd er mwyn sicrhau bod y ffotograff yn bodloni'r gofynion oherwydd mae hwn yn hanfodol i lwyddo yn eich cais am fathodyn. Mae'n ofynnol ichi ddarparu llun i gefnogi eich cais, ac ni fydd eich cais yn cael ei brosesu heb lun (ceisiadau newydd ac ailgyflwyno ceisiadau). Sylwer NAD YW'N ofynnol darparu llun os ydych yn gwneud cais o dan Gategori E.
Sicrhewch fod enw a dyddiad geni yr ymgeisydd wedi'u hysgrifennu ar gefn y ffotograff.

**Ydych chi wedi amgáu eich llun?** Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Ydych chi wedi ysgrifennu eich enw a'ch dyddiad geni ar gefn y llun?** Ydw ☐

Os na allwch amgáu ffotograff lliw diweddar (tebyg i lun pasbort), gallwch drefnu apwyntiad yn un o'n canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid drwy ffonio **01267 234567** lle gellir tynnu llun ohonoch. Ni chodir tâl am dynnu'r llun hwn ar hyn o bryd.

## RHAN E – BATHODYN YN LLE HEN UN

Ydych chi'n gwneud cais am adnewyddu eich bathodyn oherwydd ei fod wedi dod i ben neu ei fod ar fin dod i ben? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb **YDW**, ewch i'r adran briodol nesaf o'r ffurflen. Os ydych chi wedi ateb **NAC YDW,** ewch ymlaen i ateb y cwestiwn hwn.

> Os ydych chi'n gwneud cais am fathodyn yn lle un a gollwyd neu a ddifrodwyd, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn codi tâl arnoch am y bathodyn newydd. Byddwch yn cael bathodyn am ddim yn lle un sydd wedi'i ddwyn, os ydych yn nodi cyfeirnod trosedd yr heddlu ar eich cais.

Ydych chi'n gwneud cais am fathodyn oherwydd bod eich bathodyn gwreiddiol:

Wedi'i ddwyn Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Wedi'i ddifrodi Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Wedi'i golli Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Cyfeirnod Trosedd yr Heddlu: ______

Rhowch fanylion isod:

______

## CATEGORI 2 - ADRAN 2

**Mae'r adran hon i gael ei llenwi gan ymgeiswyr a all fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn awtomatig heb asesiad pellach.**

Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer pobl a all fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn awtomatig am eu bod:

- wedi'u cofrestru'n ddall (nam difrifol ar y golwg); **Cwblhewch Ran A**
- yn derbyn y Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ac yn rhan o'r penderfyniad dyfarnwyd un o'r disgrifyddion canlynol iddynt: Disgrifydd F "Cynllunio a Dilyn Teithiau" neu Ddisgrifydd C,D,E neu F "Symud o Gwmpas". Darllenwch y Nodiadau Cyfarwyddyd i gael rhagor o wybodaeth) **Cwblhewch Ran B.**
- yn derbyn **Cyfradd Uwch Elfen Symudedd Lwfans** Byw i'r Anabl; **Cwblhewch Ran C**
- yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel; **Cwblhewch Ran D** neu
- yn derbyn dyfarniad cymwys dan Gynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Adfyddinoedd. **Cwblhewch Ran E**

Os nad ydych chi'n siŵr a yw'r cwestiynau hyn yn berthnasol i chi, darllenwch Adran 2 y nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u hamgáu gyda'r ffurflen gais hon.

### RHAN A – POBL Y MAE NAM DIFRIFOL AR EU GOLWG

**1.** Ydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall (nam difrifol ar y golwg)? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

**1a.** Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 1**, ydych chi'n rhoi caniatâd i ni wirio cofrestr pobl ddall yr awdurdod lleol i weld a yw'r cyngor yn gwybod am eich nam eisoes? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

> Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 1 ac 1a** ac os ydych chi wedi cofrestru gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, yna nid oes angen ichi roi rhagor o dystiolaeth o'ch nam ar y golwg yn rhan o'r cais hwn.

**1b.** Os ydych chi wedi ateb **NAC YDW i gwestiwn 1a**, nodwch a ydych wedi amgáu eich Tystysgrif Dallineb neu Olwg Diffygiol (BP1 (3R)) neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) neu dystysgrif gyfatebol flaenorol, wedi'i llofnodi gan Offthalmolegydd Ymgynghorol. Sy'n cadarnhau nam difrifol ar y golwg.

Ie ☐ Nage ☐

**RHAN B - POBL SY'N DERBYN TALIADAU ANNIBYNIAETH BERSONOL (PIP) A GAFODD ASESIAD Â'R DISGRIFYDDION CYMWYS**

1. Ydych chi'n derbyn Taliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP?) Ydw ☐ Nac Ydw ☐

   A ydych yn rhoi caniatâd i'r Cyngor wirio manylion eich dyfarniad ar system Searchlight yr Adran Gwaith a Phensiynau? Os ydych yn rhoi caniatâd, nid oes angen ichi ddarparu unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â Thaliad Annibyniaeth Personol. Ydw ☐ Nac ydw ☐

   Os ydych wedi ateb **NAC YDW**, atebwch y cwestiynau isod.

1a. Os ydych wedi ateb **YDW i gwestiwn 1**, ydy eich dyfarniad yn cynnwys unrhyw un o'r disgrifyddion canlynol?

## Disgrifyddion Elfen Symudedd y Taliadau Annibyniaeth Bersonol

**Er mwyn bod yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn awtomatig, rhaid i chi gael sgôr o 12 o ran "Cynllunio a Dilyn Teithiau" neu 8 neu fwy o ran "Symud o Gwmpas"**

**Cynllunio a Dilyn Siwrneiau – angen 12 pwynt**

A wnaethoch chi sgorio 12 pwynt yn y rhan 'Cynllunio a Dilyn Siwrneiau' o'r asesiad?

☐ Do - os oes gan eich dyfarniad ddyddiad gorffen, nodwch y dyddiad gorffen: ☐

☐ Naddo - atebwch y cwestiwn nesaf o dan Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

**Symud o Gwmpas – angen 8 pwynt neu fwy**

A wnaethoch chi sgorio 8 pwynt neu fwy yn y rhan 'Symud o Gwmpas' o'r asesiad symudedd?

☐ Do - Sawl pwynt a sgoriwyd? ☐

☐ Naddo

Os oes gan eich dyfarniad ddyddiad gorffen, nodwch y dyddiad gorffen. ☐

Os ydych yn derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), rhaid i chi amgáu'r datganiad sy'n cadarnhau eich hawl i'w dderbyn, sydd wedi'i ddyddio yn y deuddeg mis diwethaf ac sy'n dangos y pwyntiau a ddyfarnwyd. Os nad yw'r llythyr hwn yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf, rhaid ichi hefyd gynnwys eich llythyr blynyddol cyfredol sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf.

Os nad ydych yn gallu darparu'r wybodaeth hon, cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy ffonio **0800 121 4433** i ofyn am gopi cyn cyflwyno eich cais.

**RHAN C - POBL SY'N DERBYN CYFRADD UWCH ELFEN SYMUDEDD LWFANS BYW I'R ANABL**

1. Ydych chi'n derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl?

   **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ Os ydych wedi ateb YDW, a ydych yn rhoi caniatâd i'r Cyngor wirio manylion eich dyfarniad ar system Searchlight yr Adran Gwaith a Phensiynau? Ydw ☐ Nac ydw ☐ Os ydych yn rhoi caniatâd, nid oes angen ichi ddarparu unrhyw ddogfennau Lwfans Byw i'r Anabl.

Os ydych yn cael Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabledd, rhaid amgáu llythyr yn dangos eich hawl i hynny ac mae'n rhaid ei fod wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf. Os nad ydych yn gallu darparu'r wybodaeth hon, ffoniwch yr Adran Gwaith a Phensiynau ar **0800 121 4600** (cyfeiriwch at dudalen 9 yn y nodiadau cyfarwyddyd i gael rhagor o fanylion) i ofyn am gopi cyn cyflwyno eich cais.

**RHAN D - POBL SY'N DERBYN ATODIAD SYMUDEDD PENSIYNWYR RHYFEL**

1. Ydych chi'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel? Ydw ☐ Nac ydw ☐

   Os ydych wedi ateb **YDW**, a ydych wedi cael y budd-dal hwn am gyfnod amhenodol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb **NAC YDW**, pryd y bydd y budd-dal hwn yn dod i ben? ☐

**Os ydych yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel (WPMS), rhaid ichi amgáu'r llythyr hwn fel prawf o'ch hawl. Os ydych wedi colli'r llythyr hwn, gallwch gysylltu â'r asiantaeth drwy ffonio'r rhif rhadffôn 0800 169 2277.**

**RHAN E - POBL SY'N DERBYN BUDD-DAL DAN GYNLLUN (IAWNDAL) Y LLUOEDD ARFOG A'R ADFYDDINOEDD**

1. Ydych chi wedi derbyn budd-dal untro ar dariff rhwng 1 ac 8 Cynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Adfyddinoedd ac wedi'ch ardystio gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr i fod ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu nad ydych chi'n gallu cerdded neu eich bod yn cael anhawster mawr i gerdded? Ydw ☐ Nac ydw ☐
2. A ydych wedi cael Tariff 6 - Cynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog - Anhwylder Meddyliol Parhaol Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych chi'n derbyn y dyfarniad uchod dan Gynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Adfyddinoedd, bydd Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr (SPVA) wedi anfon llythyr atoch yn cadarnhau lefel eich dyfarniad ac yn cadarnhau hefyd eich bod wedi'ch asesu i fod ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu nad ydych chi'n gallu cerdded neu eich bod yn cael anhawster mawr i gerdded. **Rhaid i chi amgáu'r llythyr hwn fel tystiolaeth o'ch hawl.** Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, gellir cysylltu â'r asiantaeth ar y rhadffôn ymholiadau: **0800 169 2277**

**Os ydych chi wedi ateb YDW i unrhyw un o'r cwestiynau yn ADRAN 2, ewch yn syth i ADRAN 9. Os ydych chi wedi ateb NAC YDW, ewch i ADRAN 3.**

## ADRAN 3 – ANAWSTERAU CERDDED

**Mae'r adran hon ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd awtomatig ond sydd ag anawsterau cerdded.**
Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer pobl sydd wedi ateb **NAC YDW** i'r holl gwestiynau yn Adran 2. Nodwch y byddwch ond yn gymwys i gael Bathodyn Glas dan y meini prawf hyn os ydych chi, neu'r sawl rydych chi'n gwneud cais ar ei ran dros ddwy oed, bod gennych/ganddo/ganddi anabledd parhaol a sylweddol sy'n **golygu nad ydych/nad yw'n gallu** cerdded neu eich bod/ei fod/ei bod yn **cael anhawster mawr i gerdded.**
Byddwn yn cynnal asesiad pen desg i gael gwybodaeth neu'n gofyn ichi ddod i asesiad symudedd er mwyn penderfynu a ydych yn gymwys i gael bathodyn glas.
Os nad ydych chi'n siwˆ r a yw'r cwestiynau hyn yn berthnasol i chi, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u hamgáu gyda'r ffurflen gais hon.

1a. Disgrifiwch y cyflwr neu'r nam sydd gennych a nodwch y termau meddygol os ydych chi'n eu gwybod.

1b. Ydy'ch cyflwr meddygol neu nam yn un parhaol? Ydy ☐ Nac Ydy ☐

**Os ydych yn ticio NAC YDY fan hyn, nid ydych yn gymwys, fodd bynnag, os bydd eich cyflwr yn newid, gallwn ailymgeisio.**

2. Disgrifiwch sut mae eich cyflwr yn effeithio ar eich cerdded.

3. Eglurwch yn gryno sut ydych yn ymdopi â thasgau byw o ddydd i ddydd h.y. siopa, gorchwylion ar yr aelwyd, gofal personol.

4a. **Gofynnir ichi gadarnhau enw a chyfeiriad eich meddyg teulu.**

4b. Ydych chi'n cymryd meddyginiaeth yn rheolaidd sydd wedi'i rhagnodi gan weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer eich symudedd? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

**Os ydych wedi ateb YDW, amgaewch eich presgripiswn.**

Os nad yw'r presgripsiwn wedi'i amgáu, nodwch y rheswm pam.

4c. A ydych yn defnyddio pwmp/nebiwleiddiwr neu chwistrellydd GTN?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb **YDW,** a oes angen y rhain arnoch ar gyfer pob taith?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os ydych wedi ateb **NAC OES**, pa mor aml ydych yn eu defnyddio?

☐

5a. Ydych chi wedi gweld gweithiwr iechyd proffesiynol yn y flwyddyn ddiwethaf oherwydd unrhyw anhwylder sy'n effeithio ar eich symudedd?

Ydw ☐ Nac Ydw ☐ Os ydych wedi ateb **NAC YDW**, **ewch i gwestiwn 6**

5b. Os **ydych,** rhowch fanylion i ni.

| Enw | Teitl Swydd | Pryd cawsoch eich gweld |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

**Gofynnir ichi ddarparu llythyr ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi eich cais, sy'n disgrifio pa mor ddifrifol yw eich anawsterau symud.**

Amgaewyd llythyr Do ☐ Naddo ☐

5c. A ydych yn derbyn Lwfans Gweini? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

**Os ydych yn derbyn Lwfans Gweini, rhaid ichi amgáu'r llythyr hawl a rhaid iddo fod yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf.**

6. Ydych chi wedi'ch cofrestru'n anabl gyda'r awdurdod lleol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

7a. A yw eich tŷ wedi'i addasu i ddiwallu'ch anghenion symudedd? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydych wedi ateb **YDY**, **ewch i gwestiwn 7b.** Os ydych wedi ateb **NAC YDY, ewch i gwestiwn 8**

7b. Pwy ddarparodd yr addasiadau?

☐

7c. Pa addasiadau gafodd eu gwneud neu sydd yn eich tŷ?

☐

8. Ydych chi'n cael gostyngiad anabledd o ran y Dreth Gyngor oherwydd eich nam?

Ddim yn gwybod ☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐

9a. Ydych chi'n derbyn unrhyw wasanaethau eraill i gefnogi'ch ffordd o fyw e.e. gwasanaethau gofal? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb **YDW, ewch i gwestiwn 9b**, os ydych wedi ateb **NAC YDW, ewch i gwestiwn 10.**

9b. Beth yw'r gwasanaethau hyn?

☐

9c. Pwy sy'n darparu'r gwasanaethau hyn?

10. Ydych chi wedi cael unrhyw asesiadau ynghylch sut mae'ch cyflwr yn effeithio arnoch chi? Er enghraifft, gan yr adran addysg, yr adran cymunedau (y gwasanaethau cymdeithasol gynt) Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb **YDW, ewch i gwestiwn 11**, os ydych wedi ateb **NAC YDW, ewch i gwestiwn 12.**

11. Rhowch fanylion yr asesiadau hyn

| Enw | Teitl Swydd | Manylion cyswllt | Pryd cawsoch eich asesu? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

12a. Oes angen cymorth arnoch i fynd i mewn ac allan o gerbyd? Oes ☐ Nac oes ☐

Os ydych wedi ateb **OES, ewch i gwestiwn 12b**, os ydych wedi ateb **NAC OES, ewch i gwestiwn 13**

12b. Esboniwch pa fath o gymorth sydd ei angen arnoch.

13. Ydy'ch cerbyd wedi cael ei addasu ar gyfer eich anghenion? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydych wedi ateb Ydy, cadarnhewch sut y cafodd y cerbyd ei addasu ar eich cyfer ac amgaewch lungopi o'ch manylion yswiriant i gadarnhau bod y cerbyd wedi'i addasu.

14a. Ydych chi'n defnyddio ocsigen? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydych wedi ateb **YDW, ewch i gwestiwn 14b,** os ydych wedi ateb **NAC YDW, ewch i gwestiwn 15a**

14b. Os ydych wedi ateb YDW, ydych chi'n defnyddio ocsigen trwy biben yn eich cartref neu ocsigen o danc symudol?

14c. Pan fyddwch yn mynd allan oes angen ichi gario ocisgen? Yes ☐ No ☐

14d. Eglurwch pa mor aml mae angen ichi gymryd ocsigen?

15a. Ticiwch y blwch os ydych chi'n defnyddio'r cymhorthion cerdded canlynol

- ☐ 1 bagl penelin
- ☐ Ffon gerdded
- ☐ Ffrâm gerdded (ffrâm Zimmer)
- ☐ Cadair olwyn
- ☐ Coesau prosthetig
- ☐ Cymorth celfi
- ☐ Sgwter â modur
- ☐ 2 fagl penelin
- ☐ 2 ffon gerdded
- ☐ Ffrâm gerdded ag olwynion
- ☐ Cadair olwyn drydan
- ☐ Cerddwr tair/pedair olwyn

Cymhorthion Cerdded Eraill (disgrifiwch y rhain yn y blwch)

Pa mor aml ydych chi'n defnyddio cymhorthion cerdded?

15b. A gafodd eich cymhorthion cerdded: (Ticiwch y dewisiadau sy'n berthnasol i chi)

- ☐ Eu prynu'n bersonol
- ☐ Eu darparu gan yr Adran Cymunedau (y gwasanaethau cymdeithasol gynt) neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- ☐ Arall (disgrifiwch isod)

**Os ydych chi wedi cwblhau ADRAN 3, ewch yn syth i ADRAN 9.**

## CATEGORI C - ADRAN 4 – GYRWYR AG ANABLEDDAU YN Y DDWY FRAICH

**Cwestiynau i ymgeiswyr â nam ar y ddwy fraich fydd yn 'destun asesu pellach'**

Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer pobl sy'n gyrru cerbyd yn rheolaidd, sydd â nam difrifol ar y ddwy fraich ac sy'n methu defnyddio mesuryddion parcio, neu sy'n cael anhawster mawr wrth wneud hynny. Gellir ond defnyddio'r bathodyn os mai'r ymgeisydd sy'n gyrru'r cerbyd.

Os nad ydych yn siŵr a ydy'r cwestiynau hyn yn berthnasol i chi, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u hamgáu â'r ffurflen hon.

1. Ydych chi'n gyrru'n rheolaidd? Ydw ☐ Nac ydw ☐

2a. Oes gennych chi nam difrifol ar y ddwy fraich? Oes ☐ Nac oes ☐
Os ydych chi wedi ateb **OES, ewch i gwestiwn 2b**, os ydych chi wedi ateb **NAC OES, ewch i gwestiwn 3a.**

2b. Disgrifiwch eich nam, ac os ydych yn ei wybod, nodwch y cyflwr meddygol.

| |
|---|
| |

2c. Disgrifiwch unrhyw weithgareddau eraill yn eich bywyd o ddydd i ddydd sy'n anodd i chi eu gwneud oherwydd eich nam.

| |
|---|
| |

3a. Ydych chi'n cael anhawster mawr i ddefnyddio mesuryddion parcio neu beiriannau talu ac arddangos, neu'n methu eu defnyddio, o ganlyniad i'r nam ar eich breichiau?
Ydw ☐ Nac ydw ☐

3b. Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 3a** uchod, disgrifiwch yr anawsterau rydych chi'n eu cael wrth geisio defnyddio mesuryddion parcio a pheiriannau talu ac arddangos.

| |
|---|
| |

4a. Ydych chi'n gyrru cerbyd wedi'i addasu'n arbennig? Ydw ☐ Nac ydw ☐
Os ydych wedi ateb **'Ydw'** i **gwestiwn 4a** uchod, amgaewch lungopi o'ch trwydded yrru â'r côd **40 Llywio wedi'i Addasu**.

4b. Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 4** uchod, disgrifiwch sut mae'r cerbyd wedi'i addasu ar eich cyfer, ac amgaewch lungopi o'ch manylion yswiriant sy'n cadarnhau'r addasiad hwn.

| |
|---|
| |

5. Oes yna gyfyngiadau ar eich trwydded yrru o ganlyniad i'ch amhariad?

Oes ☐ Nac oes ☐

Rhif Trwydded yrru: ☐

Os ydych chi wedi ateb **OES i gwestiwn 5 uchod,** amgaewch lungopi o'ch trwydded.

**Os ydych chi wedi cwblhau ADRAN 4, ewch yn syth i ADRAN 9.**

## CATEGORI D - ADRAN 5 – CEISIADAU AR RAN PLANT DAN DAIR OED

Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer plant dan dair oed sydd o bosibl yn gymwys i gael Bathodyn Glas oherwydd:

a. Bod cyflwr arnynt sy'n golygu bod angen cludo cyfarpar meddygol swmpus gyda nhw bob amser; neu

b. Bod cyflwr arnynt sy'n golygu bod angen iddynt fod yn agos i gerbyd bob amser fel y gall y cyflwr cael ei drin yn y cerbyd, os oes rhaid, neu fel y gall y plentyn gael ei gludo ar frys yn y cerbyd i fan lle gellir ei drin.

Os nad ydych yn siŵr a ydy'r cwestiynau hyn yn berthnasol i'ch plentyn chi, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u hamgáu â'r ffurflen gais.

1a. Ydych chi'n gwneud cais ar ran plentyn dan dair oed sydd â chyflwr sy'n golygu bod angen iddo/iddi gludo cyfarpar meddygol swmpus gydag ef/hi bob amser?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

1b. Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 1** uchod, nodwch pa fath o gyfarpar sydd ei angen:

☐

2a. Ydych chi'n gwneud cais ar ran plentyn dan dair oed sydd â chyflwr sy'n golygu bod angen iddo/iddi fod yn agos i gerbyd bob amser fel y gall y cyflwr cael ei drin yn y cerbyd, os oes rhaid, neu fel y gall y plentyn gael ei gludo ar frys yn y cerbyd i fan lle gellir ei drin? Ydw ☐ Nac ydw ☐

2b. Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 2a** uchod, disgrifiwch gyflwr meddygol y plentyn

☐

2c. A allwch chi nodi'n fras pa mor aml y bydd angen y driniaeth hon arno/arni?

☐

Os ydych chi wedi ateb **YDW i gwestiwn 1 neu 2,** amgaewch lythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn gysylltiedig â thriniaeth eich plentyn (er enghraifft, eich pediatregydd) gan roi manylion cyflwr meddygol y plentyn a'r math o gyfarpar meddygol sydd ei angen arno a rhowch fanylion cyswllt y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol isod:

3. Rhowch enw a chyfeiriad meddyg teulu'r ymgeisydd

**Wrth roi manylion y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu'r meddyg teulu uchod a llofnodi Adran 9, rydych chi'n rhoi caniatâd i ni gysylltu â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu'r meddyg teulu i gael eglurhad ynghylch y wybodaeth a roddwyd neu i'w chadarnhau os bydd angen.**

**Os ydych chi wedi cwblhau ADRAN 5, ewch yn syth i ADRAN 9.**

## CATEGORI E - ADRAN 6 – I'W CHWBLHAU GAN YMGEISWYR SYDD Â SALWCH ANGHEUOL A NAMAU SYMUDEDD

**Mae'r adran hon ar gyfer pobl sydd â salwch angheuol a namau symudedd. Wrth gwblhau'r adran hon, efallai y bydd y nodiadau cyfarwyddyd atodol o gymorth ichi.**

**Os ydych yn gwneud cais o dan y categori hwn, nid oes angen llun.**

1. Rwyf wedi cael Dogfen DS 1500/SR1 ac rwy'n amgáu'r ddogfen gyda'm cais

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Os ydych chi wedi cael dogfen DS 1500/SR1 ac mae angen Bathodyn Glas arnoch gofalwch eich bod wedi cwblhau Adran 1 y ffurflen gais hon, wedi llofnodi ar ddiwedd Adran 9 ac wedi amgáu'r ddogfen DS150/SR1 gyda'r ffurflen hon. Os nad yw'r ddogfen DS 1500/SR1 gennych bydd angen inni ofyn am wybodaeth gan y Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd cysylltiedig neu ffynhonnell arall i benderfynu a ydych yn gymwys i gael bathodyn glas. Wrth lofnodi Adran 9 byddwch yn rhoi caniatâd i wybodaeth sy'n ymwneud â'r cais hwn gael ei rhyddhau.**

2. Rhowch enw a chyfeiriad eich meddyg teulu

| |
|---|
| |

3. Amgaewch unrhyw dystiolaeth gefnogol gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill os oes gennych dystiolaeth. Gall hyn arbed i ni orfod cysylltu â'ch meddyg teulu a byddwn yn gallu prosesu eich cais yn gyflymach.

   A ydych wedi amgáu unrhyw dystiolaeth ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Os ydych wedi cwblhau ADRAN 6, ewch yn syth i ADRAN 9**

## CATEGORI F - ADRAN 7 – NAM GWYBYDDOL

**Mae'r adran hon i'w chwblhau gan ymgeiswyr sydd â nam gwybyddol ac sy'n cael anhawster i gynllunio a dilyn teithiau i'r graddau bod angen goruchwyliaeth barhaus arnynt.**

Dylai ymgeiswyr gwblhau'r adran hon os:

a. Oes nam gwybyddol arnynt; ac os

b. Ydynt yn methu cynllunio neu ddilyn taith i'r graddau bod angen goruchwyliaeth barhaus arnynt, neu os ydynt yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl.

Gallwch ddal wneud cais o dan y meini prawf hyn os nad ydych yn gymwys i gael Taliad Annibyniaeth Bersonol oherwydd eich oedran neu os ydych wedi dewis peidio â gwneud cais am y budd-dal. Yn dibynnu ar ganlyniad y pecyn cofnodi penderfyniad, gall ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais o dan y meini prawf hyn ac yn methu profi eu hanghenion yn glir gael eu cyfeirio am 'asesiad pellach' i Wasanaeth Ymgynghorol Annibynnol ac efallai bydd angen iddynt ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Y gwasanaeth hwn fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch yr achosion sy'n cael eu cyfeirio ato. Gellir cael rhagor o ganllawiau ynghylch cwblhau'r adran hon yn Adran 7 y nodiadau cyfarwyddyd atodol.

1. Os ydych yn ei wybod, rhowch y term meddygol am y cyflwr/nam yn eich diagnosis:

[ ]

1. Diagnosis Llythyrau wedi'u hamgáu. Ydw ☐ Nac ydw ☐

2a. Ydych chi'n gallu cynllunio a dilyn llwybr taith gyfarwydd heb oruchwyliaeth barhaus? Er enghraifft, teithio i gartref ffrind yn lleol neu i'r siop bapur newydd/siop leol heb gwmni? Ydw ☐ Nac ydw ☐

2b. Os ydych wedi ateb **NAC YDW**, esboniwch yr anawsterau rydych chi'n eu cael i gynllunio a dilyn taith a'r cymorth sydd ei angen arnoch.

[ ]

3. Ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl? Er enghraifft, elfen Ofal neu elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl?
Ydw ☐ Nac ydw ☐

[ ]

Os ydych yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl, rhaid ichi amgáu eich llythyr hawl i'r budd-daliad hwn a roddwyd o fewn y deuddeng mis diwethaf neu eich llythyr uwchraddio blynyddol gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

4a. Rhowch fanylion unrhyw arbenigwyr iechyd perthnasol rydych wedi'u gweld yn y 12 mis diwethaf a fyddai'n gallu cefnogi'ch cais

| Enw'r Arbenigwr Iechyd | Teitl Swydd | Ysbyty/ Canolfan Iechyd | Rhif ffôn yr Arbenigwr | Dyddiad yr apwyntiad diwethaf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

4b. Darparwch gopïau o lythyrau i gefnogi eich cais

Llythyr/adroddiad Clinig Côf ☐

Llythyr /adroddiad Ymgynghorydd ☐

Llythyr / adroddiad Nyrs Dementia Arbenigol ☐

Gwybodaeth gan Ddarparwr Gofal Dydd neu Ofalwyr ☐

5. A ydych yn cael cymorth ar hyn o bryd gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb **YDW**, cadarnhewch pa dîm ☐

6. Ydych chi'n mynd i glinig cof? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, darparwch lythyr neu gerdyn apwyntiad i gefnogi'ch cais

☐

7. Ydych chi ar Gofrestr Anableddau Dysgu yr Awdurdod Lleol

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb **YDW**, dywedwch wrthym â pha Awdurdod rydych wedi cofrestru

☐

Efallai y bydd yn rhaid ichi gwblhau ffurflen ychwanegol.

**Os ydych wedi cwblhau ADRAN 7 ewch yn syth i ADRAN 9**

## CATEGORI G - ADRAN 8 - ANABLEDD DROS DRO

**Dylai ymgeiswyr gwblhau'r adran hon o'r ffurflen gais os ydynt:**

- yn methu cerdded neu'n cael anhawster mawr wrth gerdded

**ac**

- os oes ganddynt **anabledd sylweddol ond dros dro** sy'n debygol o bara am y **12 mis nesaf.**

Mae'n bosibl y cewch eich cyfeirio i Wasanaeth Ymgynghorol Annibynnol i gael asesiad pellach er mwyn penderfynu a ydych yn gymwys i gael Bathodyn Glas dros dro.

**Dewiswch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n berthnasol i'r cyflwr sydd arnoch a pha mor hir y mae'n debygol o bara?**

| **CYFLWR / NAM** (ticiwch **YDW** neu **NAC YDW**) | **YDW** | **NAC YDW** | If you ticked **YES** what is the estimated recovery time? |
|---|---|---|---|
| 1. A ydych chi'n gwella ar ôl torasgwrn cymhleth yn eich coes, sydd o bosibl yn cael ei reoli gan offer sefydlogi allanol? | | | |
| 2. A ydych chi'n cael therapi er mwyn gwella o strôc neu anaf i'r pen sydd wedi cael effaith ar eich gallu i symud? | | | |
| 3. A ydych chi'n cael therapi er mwyn gwella o anaf i'r cefn a berodd ichi golli defnydd eich coesau? | | | |
| 4. A ydych chi'n cael ymyrraeth feddygol, er enghraifft triniaeth am ganser, sy'n effeithio ar eich gallu i symud? | | | |
| 5. A oes gennych nam difrifol ar y goes sy'n effeithio ar eich gallu i symud ac yn aros am gymal newydd neu wedi cael un (e.e. un neu ddwy glun neu ben-glin ac ati) | | | |
| 6. Arall, disgrifiwch:<br><br>Faint yr amcangyfrifir fydd hi'n cymryd i chi wella? ........................................................................ | | | |

Nodwch fanylion unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol rydych chi wedi eu gweld a fyddai'n gallu cefnogi eich hawliad. Gall hyn gynnwys:

- Llawfeddygon
- Therapyddion Galwedigaethol
- Tîm Adsefydlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweithiwr Iechyd proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol e.e. ffisiotherapydd
- Nyrsys Macmillan neu rai eraill sydd ynghlwm â gofal cleifion

| Enw | Teitl y swydd | Ysbyty/ Canolfan Iechyd | Rhif Ffôn | Dyddiad y gwelwyd yr unigolyn hwn ddiwethaf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Amgaewch unrhyw lythrau meddygol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi eich cais am fathodyn glas dros dro.

Llythyrau wedi'u hamgáu Yes ☐ No ☐

**Os ydych wedi cwblhau ADRAN 8, ewch yn syth i ADRAN 9**

## POB CATEGORIES - ADRAN 9 - DATGANIADAU A LLOFNODION

**Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth**
Byddwn yn delio â'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r cais hwn yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac yn ei defnyddio ar gyfer gweithredu a gweinyddu'r cynllun Bathodyn Glas yn unig. Byddwn ni (Cyngor Sir Caerfyrddin) ond yn rhannu eich gwybodaeth gyda'ch caniatâd ond, mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni rannu eich gwybodaeth heb eich caniatâd, er enghraifft, os oes rhaid gwneud hynny i gydymffurfio â'r gyfraith. O ganlyniad mae'n bosibl y bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cais hwn yn cael ei rhannu â sefydliadau perthnasol er mwyn canfod ac atal twyll.

I brosesu eich cais mae'n bosibl y bydd angen i ni ac i gyrff perthnasol eraill (h.y. yr Adran Gwaith a Phensiynau, meddygon teulu, Therapyddion Galwedigaethol ac ati) rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cais â'n gilydd er mwyn dilysu tystiolaeth o'ch hawl i gael Bathodyn Glas.

**9. Datganiadau gorfodol a chaniatâd**

- Rwy'n cadarnhau bod y manylion a ddarparwyd gennyf yn gyflawn ac yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n sylweddoli y gallech gymryd camau yn fy erbyn os wyf wedi darparu gwybodaeth anwir ar y ffurflen gais hon.
- Rwy'n deall y bydd yn rhaid i mi adael i'm hawdurdod lleol wybod yn syth am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy hawl i gael bathodyn.
- Rwy'n cadarnhau bod y llun a gyflwynir gyda'm cais yn ddarlun gwir ohonof.
- Os bydd fy nghais yn llwyddiannus, deallaf na ddylwn ganiatáu i unrhyw un arall ddefnyddio'r bathodyn er ei les ei hun a bod rhaid i mi ddefnyddio'r bathodyn yn unol â rheolau'r cynllun yn unig, fel y nodir yn y daflen "Cynllun y Bathodyn Glas: Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru" a fydd yn cael ei hanfon ataf gyda'r bathodyn.
- Rwy'n deall na ddylwn gael mwy nag un Bathodyn Glas ar unrhyw adeg.
- Rwy'n cadarnhau nad oes gennyf Fathodyn Glas Parcio ar gyfer Person Anabl ar hyn o bryd sydd wedi'i gyflwyno gan awdurdod lleol gwahanol.
- Rwy'n deall y byddwch chi'n trafod pob dogfen sy'n ymwneud â'r cais hwn yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, ac y byddwch, o bosibl, yn eu rhannu â sefydliadau perthnasol eraill er mwyn canfod ac atal twyll.
- Rwy'n deall y gallai fod angen i'r awdurdod lleol a sefydliadau perthnasol eraill rannu'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r cais hwn er mwyn cadarnhau fy hawl i gael Bathodyn Glas.
- Rwy'n deall y gall fod angen i mi gael fy asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n annibynnol ar fy ngofal a'm triniaeth gyfredol, er mwyn pennu a wyf yn gymwys i gael Bathodyn Glas.

**Trwy lofnodi'r ffurflen gais hon rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y datganiadau a'm bod yn rhoi caniatâd:**

(i) i Gyngor Sir Caerfyrddin a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol perthnasol eraill (e.e. meddygon teulu, Therapyddion Galwedigaethol) rannu'r wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r cais hwn i gadarnhau bod gennyf hawl i gael y Bathodyn Glas;

(ii) i Gyngor Sir Caerfyrddin gysylltu ag adrannau eraill o'r Cyngor (h.y. y Dreth Gyngor, Cofrestrydd Etholiadol) i ddilysu tystiolaeth o'm cyfeiriad fel y nodwyd yn Adran 1, Rhan B.

Eich llofnod: ☐

Printiwch: ☐

Dyddiad: ☐

**Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall, nodwch eich perthynas ag ef/hi**

☐ Gwarcheidwad Swyddogol ☐ Cyfrifoldeb Rhiant

☐ Pwêr Atwrnai ☐ Arall (Disgrifiwch isod) ..................................................

**Os ydych chi wedi gwneud cais am Fathodyn Glas ar ran rhywun arall, rhaid i chi fod yn ymwybodol y gallai defnyddio'r Bathodyn Glas yn groes i'r rheolau sy'n llywodraethu'r cynllun arwain at erlyniad a dirwy a bydd eich Bathodyn Glas yn cael ei dynnu'n ôl.**

**Rhoi caniatâd i ddefnyddio eich gwybodaeth i wella'r gwasanaeth a gewch**

Ticiwch y blwch os ydych yn caniatáu inni ddatgelu'r wybodaeth a nodwyd ar y ffurflen hon i adrannau eraill o'r awdurdod lleol / darparwyr gwasanaeth eraill fel y gallant roi gwybod ichi am wasanaethau eraill gan yr awdurdod lleol a allai fod o fudd i chi. ☐

## RHESTR WIRIO O'R DOGFENNAU Y GALL FOD ANGEN ICHI EU HAMGÁU

Gofalwch eich bod wedi amgáu'r holl ddogfennau perthnasol ar gyfer yr adrannau o'r ffurflen gais rydych wedi'u llenwi. Rydym wedi darparu rhestr wirio isod i'ch atgoffa am y dogfennau sydd angen eu hamgáu:

**ADRAN 1 – GWYBODAETH AM YR YMGEISYDD**

- ☐ Prawf o'ch cyfeiriad, wedi'i ddyddio yn y 12 mis diwethaf.
- ☐ Llungopi wedi'i ardystio sy'n brawf o bwy ydych chi.
- ☐ Llun maint pasbort safonol o'r ymgeisydd ac enw a dyddiad geni'r ymgeisydd ar y cefn.

**ADRAN 2 – RHAN A – POBL SYDD Â NAM DIFRIFOL AR Y GOLWG**

- ☐ Adroddiad Ophthalmolegydd/ffurflen CVI/BP1 (3R) (os nad ydych wedi rhoi caniatâd i ni wirio'r gofrestr pobl ddall).

**ADRAN 2 – RHAN B – POBL SY'N BODLONI DISGRIFYDD 'SYMUD O GWMPAS' NEU 'GYNLLUNIO A DILYN TEITHIAU' ELFEN SYMUDEDD Y TALIAD ANNIBYNIAETH BERSONOL (PIP)**

- ☐ Datganiad o hawl i Daliad Annibyniaeth Bersonol, wedi'i ddyddio yn y 12 mis diwethaf, sy'n dangos y pwyntiau a ddyfarnwyd a'r cyfeiriad presennol. Os nad yw'r llythyr hwn yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf, rhaid ichi hefyd gynnwys eich llythyr blynyddol cyfredol sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf ac sy'n dangos eich cyfeiriad presennol.

**ADRAN 2 – RHAN C – POBL SY'N DERBYN CYFRADD UWCH ELFEN SYMUDEDD LWFANS BYW I'R ANABL**

- ☐ Llythyr sy'n cadarnhau eich hawl i dderbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl wedi'i ddyddio yn y 12 mis diwethaf ac sy'n dangos y cyfeiriad presennol.

**ADRAN 2 – RHAN D - POBL SY'N DERBYN ATODIAD SYMUDEDD PENSIYNWYR RHYFEL**

- ☐ Llythyr gwreiddiol yn nodi'r hawl i dderbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel.

**ADRAN 2 – RHAN E – POBL SY'N DERBYN BUDD-DAL DAN GYNLLUN (IAWNDAL) Y LLUOEDD ARFOG A'R ADFYDDINOEDD**

- [ ] Llythyr gwreiddiol sy'n cadarnhau rhoi budd-dal ar dariff rhwng 1 ac 8 Cynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Adfyddinoedd ac yn ardystio bod gennych anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu nad ydych chi'n gallu cerdded neu eich bod yn cael anhawster mawr i gerdded.

**ADRAN 3 – ANAWSTERAU CERDDED**

- [ ] Ymgynghorydd Presgripsiwn Ailadroddus
- [ ] Llythyron ymgynghorydd
- [ ] Llythyrau Apwyntiad
- [ ] Llythyr Lwfans Gweini

**ADRAN 4 – GYRWYR Â NAM AR Y DDWY FRAICH**

- [ ] Copi o'ch manylion yswiriant os ydych yn gyrru cerbyd sydd wedi'i addasu'n arbennig.
- [ ] Copi o'ch trwydded yrru

**ADRAN 5 – PLANT DAN DAIR OED**

- [ ] Llythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn gysylltiedig â thriniaeth y plentyn sy'n rhoi manylion cyflwr meddygol y plentyn a'r math o gyfarpar meddygol sydd ei angen.

**ADRAN 6 - SALWCH TERFYNOL**

- [ ] Amgaeaf y ddogfen DS1500/SR1

**ADRAN 7 – NAM GWYBYDDOL**

- [ ] Llythyr gan arbenigwr iechyd a welsoch yn y 12 mis diwethaf a fyddai'n gallu cefnogi'ch cais.
- [ ] Llythyr neu gerdyn apwyntiad ar gyfer clinig cof.
- [ ] Os ydych yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl rhaid i chi amgáu'r llythyr sy'n cadarnhau eich hawl i gael y budd-dal hwn, wedi'i ddyddio yn y deuddeg mis diwethaf neu'r llythyr blynyddol gwreiddiol a gawsoch eleni ynghylch codi cyfraddau.
- [ ] Llythyr diagnosis

# FOR OFFICE USE ONLY

Date application received @ CCC: ____________________________ Date application received @ BB Team: ______________________

Name of applicant: ________________________________________ Expiry date of last badge: ________________________________

## Medical Referral

GP Referral Yes ☐ OT Referral Yes ☐

Sent: Date: _________________ Date: _________________

Date outcome received : Date: _________________ Date: _________________

---

Referred to Able 2 Date ___________________ Received from Able 2 Date ___________________

Search light check Yes ☐ Outcome ______________________________________________________________________

---

Not eligible / Refusal Yes ☐ Refusal Authorised by:__________________________________________

Refusal letter sent: Date: _________________ Date: _________________ Date: _________________

## Proof of identity

Bus Pass ☐ Confirmed with: _________________________ Date: ___________________

Identity document: _____________________________________ Seen by: ___________________________ Previous badge ☐

Identity checked: ☐ Original ☐ Certified Copy ☐ Copy to be Certified

☐ Original documents returned, date:_____________________________

Documents returned: ____________________________________________

## Proof of address

Address checked: ☐ C Tax ☐ Electoral ☐ CF ☐ EDUC ☐ DWP ☐ DL ☐ Previous Badge

Other __________________________________________________________________

Confirmed with:________________________________________ Date:__________

---

Evidence/Eligibility Document Required: _________________________________ Date Req: ___________ Date Rec: _____________

Evidence/Eligibility recorded: ________________________________________________________________________

---

Photo received: Yes ☐ No ☐ NA ☐ Yes - saved ☐ Consent given ☐

---

Notes: ..................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................